BARSTOW, Syr GEORGE LEWIS, (1874 - 1966), gwas sifil, llywydd Coleg Prifysgol Abertawe

Enw: George Lewis Barstow
Dyddiad geni: 1874
Dyddiad marw: 1966
Priod: Enid Lilian Barstow (née Lawrence)
Rhiant: Cecilia Clementina Barstow (née Baillie)
Rhiant: Henry Clements Barstow
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwas sifil, llywydd Coleg Prifysgol Abertawe
Maes gweithgaredd: Addysg; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Evan David Jones

Ganwyd 20 Mai 1874 yn fab i Henry Clements a Cecilia Clementina (ganwyd Baillie) Barstow yn yr India, y tad yn y gwasanaeth sifil yno. Bu teulu Barstow am ganrifoedd yn amlwg mewn masnach yng Nghaerefrog. Trwy ei briodas ag unig ferch Syr Alfred Tristram Lawrence, Barwn cyntaf Trevethin, ac ymgartrefu yn ymyl Llanfair-ym-Muallt y daeth George Barstow i gysylltiad â Chymru. Wedi graddio yn y dosbarth cyntaf yn nwy ran y Tripos clasurol yn 1895-96, yng Ngholeg Emmanuel, Caergrawnt, aeth i'r gwasanaeth sifil ac yn 1898 ymsefydlodd yn y Trysorlys. Cyn Rhyfel Byd I bu ganddo ran yn newid tanwydd y llynges o lo i olew. Yn ystod y rhyfel a than 1947 bu'n flaenllaw yn rheolaeth cyflenwi yn y Trysorlys. Yn 1927 cafodd ei wneud yn gyfarwyddwr y llywodraeth ar yr Anglo-Persian Oil Company. Bu hefyd yn gyfarwyddwr Banc y Midland ac yn gadeirydd Cwmni Yswiriant y Prudential.

Yng Nghymru cymerodd ddiddordeb arbennig yn yr Eglwys yng Nghymru ac mewn addysg uwch. Ef a fu'n bennaf gyfrifol am ad-drefnu cyllid yr Eglwys yn ei blynyddoedd cyntaf, a chyfeirio'i gweinyddiaeth ariannol. Yr oedd yn un o lywodraethwyr Coleg Crist, Aberhonddu, ac o 1929 i 1955 bu'n llywydd Coleg Prifysgol Abertawe. Gwnaethpwyd ef yn C.B. yn 1913 a'i ddyrchafu'n farchog yn 1920. Derbyniodd radd LL.D. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1937.

Yn 1904, priodod Enid Lilian Lawrence, a bu iddynt ddau fab ac un ferch. Bu farw yn ei gartref, Chapel House, Llanfair-ym-Muallt, ar 29 Ionawr 1966.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Who was who?

Who's who in Wales, 1921 a 1937

Oxford Dictionary of National Biography, 1961-70

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5536767

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu